

## Pymthegfed Gynhadledd Lwyddiannus



Teitl y gynhadledd eleni, a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Priordy, Y Fenni ar 13<sup>eg</sup> - 14<sup>eg</sup> Hydref 2012, oedd **Yr Hanes Greon Ni: Menywod yng Nghymru rhwng 1500 a 2012**.

Ar y dydd Sadwrn tynnodd sawl siaradwr ar gasgliadau'r archifau. Cyflwynodd Gary Tuson adeilad newydd Archifdy Gwent i ni, ac amlinellodd yr adnoddau ar hanes menywod. Cyflwynodd Nikki

Bosworth (sir Benfro) ac Elizabeth Belcham (Gorll. Morgannwg) bapurau yn seiliedig ar y casgliadau y mae ganddynt hwy gysylltiadau proffesiynol â nhw. Datblygwyd y pwnc, *Menywod o Gymru Gartref a Thramor* gan drafodaeth Mary Jane Stevenson am ferched yng Ngheredigion yn y 19<sup>eg</sup> ganrif a thrwy ddetholiad Colin Thomas o'i lyfr fideo neu 'vook' *The Dragon and the Eagle* am wladychwyr o Gymru yn America. Yn anffodus ni allai technoleg y gynhadledd wneud cyfiawnder â'r cyflwyniad hwn, ond gallem weld a chlywed digon i sylweddoli y byddai'n brofiad diddorol iawn. Cafwyd papur cain a llengar gan Gwyneth Tyson Roberts, yn ôl ei harfer. Cyfeillgarwch ym marddoniaeth Gymraeg gan fenywod oedd thema ddiddorol Cathryn Charnell-White a chlywsom hanes Blanche Parry, cyfeilles Elisabeth 1af, gan Ruth Richardson.

Treuliwyd bore dydd Sul yn edrych ar hanes ar ôl yr ail ryfel byd, gyda Deirdre Beddoe yn rhoi darlith ar fenywod yn y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, sail bwysig i brosiect mawr diweddaraf yr Archif a fydd yn casglu atgofion a phrofiadau menywod oedd yn gweithio mewn diwydiant o'r 1940au i'r 1970au. Siaradodd Catrin Stevens am sefydlu a hanes cynnar Merched y Wawr, a daeth y bore i ben gyda phanel, Jane Hutt AC, Alison Scouller a Jennifer Cole yn disgrifio sut y daethant yn rhan o'r Mudiad i Fenywod. Efallai fod sesiwn olaf y bore Sadwrn yn cysylltu â hyn, pan fu Di Setch a Dilys Jackson yn egluro beth a'u cymhellodd i sefydlu Cymdeithas Celfyddydau Menywod yng Nghaerdydd a rhai o'u brwydrau a'u llwyddiannau cynnar. Arddangoswyd 30 o weithiau aelodau CCM o gwmpas y neuadd.

Yn ogystal ag arddangosfa roedd dau stondin i ddenu'r mynychwyr yn yr egwyliau; un yn arddangos ystod ardderchog cyhoeddiadau Honno, a'r llall yn gwerthu llyfrau ail-law aelodau (codwyd £61). Trefnodd Catrin Stevens raffi (codwyd £81).

Cynorthwyodd y rhain i gadw cyllid y Gynhadledd yn iach, felly diolch i bawb gyfrannodd atynt trwy roi o'u hamser neu eu harian. Fel arfer, byddai'n braf bod wedi cael mwy o amser i drafod, ond er y prysurdeb, cafwyd diwrnod a hanner llwyddiannus ac ysgogol.

Caroline Fairclough



### Argraffiadau o gynhadledd 2012

Mae cynnal gynhadledd AMC mewn adeilad hanesyddol yn braf iawn; brafiach fyth yw ei chynnal mewn adeilad hanesyddol hardd, a gorau oll os yw'r cyfraniadau a'r gwmniaeth yn ddifyr. A dyna beth ddigwyddodd eleni. Cynhaliwyd y gynhadledd ym Mhriordy Eglwys Fair y Fenni, a chawsom gyfle i ymweld â'r eglwys ei hun, gyda'i chasgliad rhyfeddol o feddrodau'r 15g a'r 16g. Dyma orweddfan olaf rhai o frenhinoedd - a breninesau - y Mers yn oes y Tuduriaid.

Mwynheais hefyd glywed hanes Cymraes ddylanwadol arall o'r 16g, sef **Blanche Parry**, rheolwreg teulu Elisabeth I, a'i ffrind mynwsol ar hyd ei hoes. Gwyddom lawer am y dynion oedd yn cynghori'r frenhines, ond ychydig o wybodaeth oedd gennyf cyn hyn am berson oedd â chymaint o ddylanwad ar y frenhines. Difyr oedd disgrifiad Ruth Richardson o'r berthynas agos

rhwyng y frenhines a Blanche, yn enwedig gan fod ei chyfraniad yn dilyn papur **Cathryn Charnell-White** ar gyfeillgarwch ym marddoniaeth Gymraeg gan fenywod rhwyng 1500-1800.

Ond un o uchafbwyntiau'r gynhadledd i fi oedd y cinio nos Sadwrn. Bwyd blasus mewn hen westy - er yn un hanesyddol; cwmni difyr eto (a chael clywed y gwirionedd am hen stori am athro prifysgol); a'r canu! Gorffen y noson gyda chôr swynol o blith ein haelodau a hen ganeuon ymgyrchoedd menywod y gorffennol dros eu hawliau... a mynd allan wedyn i strydoedd tawel (a hanesyddol) y Fenni a seiniau menywod dewr y gorffennol yn ein clustiau a'u tân dros gyfiawnder yn ein calonnau. I'r gad! Ac i gynhadledd 2013!!



*Cantorion newydd Rhyddfrenio'r Bleidlais Y Fenni a'r Fro!*

Dr Elin Jones

### Ymweld ag Archifdy Gwent

I'r rhai ohonoch a fwynheudd daith rithwir Gary Tuson o archifdy newydd Gwent yn y Gynhadledd eleni, ac i'r rhai na lwyddodd i fod yn bresennol, dyma gyfle i chi weld y lle ei hun.

Mae ymweliad wedi ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn, 12fed Ionawr rhwyng 11yb ac 1yp. Bydd yr ystafell ymchwil ar agor y prynhawn hwnnw, felly gellid gwneud diwrnod ohoni a gweithio ar yr archifau yno. Dylech fod wedi derbyn taflen yn electronig neu trwy'r post, oddi wrth Sue Thomas. Archebwch trwyddi hi o.g.y.dd. Nid yw'r rhifau'n gyfyngedig ond mae angen i ni wybod faint o bobl sy'n dod.



**Cymdeithas Gwenynen Gwent:** Cafodd y gymdeithas ddwyieithog hon ei sefydlu bron ddeng mlynedd yn ôl er mwyn datlu a lledaenu gwybodaeth am y gwaith a wnaeth Gwenynen Gwent (Arglwyddes Llanofor) i gadw diwylliant Cymraeg a Chymreig yn ddiogel. Mae'r gymdeithas yn cefnogi pob agwedd ar ddiwylliant Cymru – yn arbennig yr iaith, defodau, traddodiadau, gwsg, cerddoriaeth (yn arbennig gan y delyn), dawns, eisteddfodau, straeon gwerin a chwedlau. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r gymdeithas wedi cynnal cyngherddau, twmpathau, darlithoedd, diwrnodau 'Dwylo ar Delyn' ac un ysgol-undydd. Mae'n cefnogi eisteddfodau - lleol a chenedlaethol – ac yn falch o gefnogi rhai cerddorion ifainc lleol. Er bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn cael eu cynnal yng Ngwent, mae aelodau o bob rhan o Gymru, o Loegr a rhai o dramor hyd yn oed. Mae ysgol undydd i ddathlu ei bywyd a'i gwaith i'w chynnal yn y gwanwyn (y dyddiad i'w benodi) yn neuadd bentref Llanofor. Gweler [www.ladyllanover.org.uk](http://www.ladyllanover.org.uk); neu e-bost [info@ladyllanover.org.uk](mailto:info@ladyllanover.org.uk) am fanylion pellach.

### O'r Gadair

Bu'n braf croesawu sawl aelod newydd yn y misoedd diwethaf, ac i gwrdd â rhai ohonoch yn y Gynhadledd. Unwaith eto, bu'r Gynhadledd Flynyddol yn llwyddiant mawr ac yn ddifyr iawn, ond mae eraill yn ysgrifennu am hyn, felly fe gyfyngaf fy hun i gofnodi fy niolch i Caroline, Katrina a'u tîm o weithwyr am eu gwaith caled a'r trefniadau ardderchog.

Ym mis Medi roedd cynrychiolaeth deilwng o AMC/WAW yng Nghynhadledd Genedlaethol Rhywydwaith Hanes Menywod yng Nghaerdydd. Aethom â'n baner 'pop-up', a'n taflenni yno a rhoddwyd cyflwyniad byr ar y mudiad. Cynrychiolais yr Archif yn y Gynhadledd ar Ddatblygiad Economaidd a Threftadaeth Forol Cymru yng Nghaerdydd, lle buon nhw'n ystyried potensial hanes morol Cymru i gefnogi twristiaeth a datblygiad. Gwahoddwyd yr Archif hefyd i Noson Llywydd y Llyfrgell Genedlaethol lle clywsom am rai o'r ffyrdd y mae'r Llyfrgell yn gweithio gyda chymunedau lleol. O safbwynt cymdeithasol, roeddwn wrth fy modd i gael fy ngwahodd i ddathlu bywyd Olwen Davies, yn Aberystwyth. Bydd y rhai a fynychodd ein Lansiad Gwefan yn y Llyfrgell Genedlaethol ym mis Mai yn cofio'r arddangosfa liwgar o ddillad a memorabilia Olwen. Mae teulu Olwen yn rhoi ei chasgliad o bapurau a gwrthrychau ar adnau trwy AMC/WAW.

Ar derfyn fy mlwyddyn gyntaf yn y gadair, gobeithio i mi fynd beth o'r ffordd tuag ar gyflawni rhai o'r pethau y bwriadwn eu gwneud dros yr Archif. Rydym yn dod yn fwy adnabyddus, ac mae'n braf nodi bod ein prosiect mawr nesaf – menywod mewn diwydiant wedi'r rhyfel, wedi cael dechreuad mor addawol. Mae'n bwysig iawn ceisio cofnodi'r atgofion am y datblygiad pwysig hwn yng ngwaith menywod a'r effaith a gafodd y gwaith ar eu bywydau. Diolch i Catrin, Rosemary a Caroline am gwblhau prosiect peilot yn barod ar gyfer ein cais am gefnogaeth grant. Gwelwyd cynnydd mewn agweddau eraill hefyd, ac rwy'n ddiolchgar iawn i holl aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd.

Jenny Sabine.

**Ffôn:** Mae gan yr Archif rif ffôn newydd **0758 1001 139 0758 1001 139**

Gadewch eich enw a'ch rhif at y peiriant ateb. Ceisiwn ymateb i alwadau o fewn wythnos.

## Nodyn pwysig i'ch atgoffa

Cytunwyd yn y Gynhadledd y byddai'r Cylchlythyr yn cael ei e-bostio yn hytrach na'i bostio o hyn ymlaen. Er bod y costau argraffu'n dal yn rhesymol, mae cost stampiau ail-bost bellach yn £100 y rhifyn i ni.

Gallwch ddewis copi papur o'r Cylchlythyr trwy gysylltu â mi ar [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org). Mae gennym restr o aelodau sydd heb gyfeiriadau e-bost, a byddant yn parhau i dderbyn eu Cylchlythyron drwy'r post. Bydd angen i aelodau eraill gysylltu â mi os am eu derbyn felly. Hwn fydd y Cylchlythyr olaf i'w bostio allan i bawb yn ddiwahân.



## Diwrnod Astudio Hanes Menywod, Bangor

Mewn cysylltiad ag AMC, cynhaliwyd cynhadledd hanner diwrnod llwyddiannus ar hanes menywod ym Mhrifysgol Bangor ddiwedd Medi. Daeth dros ugain ynghyd a siaradodd ein prif ddarlithydd, Marian Gwyn, ar y pwnc, 'Britain's

*Enslaved Women - The Struggle for Identity and Independence in Eighteenth Century Jamaica*'. Ar hyn o bryd mae Marian yn ysgrifennu ei thraethawd doethuriaeth a rhoddodd hanes difyr a theimladwy iawn yr amodau a wynebai caethferched a'r modd y seiliwyd cymaint o'n sefydliadau Prydeinig adnabyddus eu hadeiladu ar yr elw o gaethwasanaeth.

Rhoddodd Annie Williams bapur ar, '*Unending Labour: Women Domestic Servants in Nineteenth Century Anglesey*', a dangosodd pa mor bell yw'r delweddau poblogaidd a rydd rhaglenni fel 'Downton Abbey' ac 'Upstairs Downstairs' o realiti bywyd yn gweini i forwynion ym Môn.

Dangosodd Shan Robinson ddetholiad o lyfrau diddorol prin o gasgliad y Brifysgol. Roedd y sesiwn yn llawn gwybodaeth ac roedd y gynulleidfa yn falch o ddeall bod trysorau o'r fath ar gael iddynt hwy - ar riniog eu drws..

Roedd Shan ac Annie, a drefnodd y gynhadledd, wrth eu bodd â'r digwyddiad a bwriadant adeiladu ar y llwyddiant hwn. Maen nhw'n gobeithio sefydlu fforwm parhaol ar gyfer haneswyr haneswyr profiadol a myfyrwyr o'r Brifysgol, yn enwedig myfyrwyr yn gweithio ar eu traethodau hir ar y cwrs MA Astudiaethau Menywod, i rannu eu hymchwil mewn amgylchedd cefnogol ac anffurfiol.



Shan Robinson ac Annie Williams

## Coffáu ein Harwresau

Pa mor aml fyddwch chi'n gweld plac glas (neu unrhyw ddull arall o goffáu) i anrhydeddu menyw? A meddyliwch faint ohonynt sydd i ddyinion? GADEWCH I NI WNEUD RHYWBETH YNGLŶN Â HYN!

Mae Cyngor Dinas Abertawe wedi penderfynu nodi adeiladau yn y ddinas â phlaciau glas i goffáu pobl sydd â rhyw gysylltiad â'r adeilad. Mae sawl aelod lleol o'r Archif yn benderfynol y bydd rhai ohonyn nhw'n fenywod, ac maent wedi cynnig enwau'r awdures Ann Hatton ('Ann o Abertawe') a'r brifathrawes a'r ymgyrchydd dros ryddfrenio menywod Emily Phipps ar gyfer y dewis eleni (mae'n debyg mai 5 o blaciau fydd ar y mwyafr).

O glywed am hyn awgrymodd aelod arall y gallai'r Archif ymestyn yr ymgyrch ar draws Cymru - nid placiau glas o angenrheidiol ond rhyw fath o gydnabyddiaeth neu goffâd arall o'r hyn mae menywod wedi'i gyflawni yn unigol neu fel grŵp.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau, sylwadau neu os hoffech fod yn rhan o unrhyw un o'r prosiectau hyn, cysylltwch trwy e-bost [info@womensarchivewales.org](mailto:info@womensarchivewales.org) neu ysgrifennwch at yr Archif trwy Lyfrgell Glowyr De Cymru (mae'r cyfeiriad ar waelod y tudalen).

## Prosiect Menywod mewn Diwydiant Ysgafn

Yr hydref hwn lanswyd prosiect peilot i gofnodi atgofion menywod yn gweithio mewn diwydiannau ysgafn rhwng yr 1940au a'r 70au. Recordiodd Catrin Stevens, Rosemary Scadden a Caroline Fairclough gyfweiliadau manwl gyda thair menyw yr un a oedd wedi gweithio mewn ystod o ddiwydiannau, o wneud teganau i fenig, sigarennau, sanau a bidogau. Cynhaliwyd pob un o'r cyfweiliadau yn ne Cymru - o Fforest Fach i Ferthyr Tudful i Gaerdydd, ac roedd yr oedran yn amrywio o 70 i dros 90 oed. Roedd dwy o'r siaradwyr yn Gymry-Cymraeg.

Mae'n amlwg o'r dechreuadau cyfyng hyn fod cyfoeth o ddefnydd yn aros i'w ddarganfod, ac ardaloedd cyfain o Gymru i'w hymchwilio ymhellach. Bwriedir ymgeisio yn awr am grant i'n galluogi i wneud y gwaith hwn.

Bydd mwy o wybodaeth yn y Cylchlythyr nesaf ac ar y wefan yn fuan.



## Rhoddion: Dulliau newydd i'n helpu ni

Mae AMC bob amser wedi bod yn ddiolchgar am roddion ariannol, sy'n helpu gwaith yr archif. Mae eich tanysgrifiad yn talu'r costau rhedeg sylfaenol, gan gynnwys cynhyrchu a phostio'r cylchlythyr, ond prin yw'r arian dros ben. Bydd llawer ohonoch yn cofio'r stondinau codi arian llwyddiannus iawn a'r digwyddiadau eraill drefnwyd gan Angela Brunt adeg y Sioeau ar Daith ac a gododd arian sylweddol i'r Archif. Mae'r rhain wedi helpu i dalu am y baneri cyhoedduswydd newydd a'r wefan ar ei newydd wedd; cefnogwch y rafflau a'r dulliau codi arian eraill mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

### Yn Newydd! Rhoi ar-lein

Rydym, wrth gwrs, yn dal yn ddiolchgar iawn am roddion drwy'r post ond rydym wedi edrych ar ddulliau eraill i annog rhoi ac rydym wedi ymuno yn awr â thebiggive ([www.thebiggive.org.uk](http://www.thebiggive.org.uk) <<http://www.thebiggive.org.uk>>) sy'n ei gwneud yn hawdd iawn rhoi arian i AMC yn uniongyrchol ar-lein neu trwy ein gwefan. Ewch i <<http://new.thebiggive.org.uk/charity/view/10835>>. Bydd hyn yn mynd â chi i dudalen AMC ar safle biggive (yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd) sy'n rhoi gwybodaeth am yr Archif ac yn cynnig cyfle i chi roi trwy ei gwefan. Os ydych yn gymwys i gael Cymorth Rhodd caiff hyn ei gynnwys yn eich rhodd. Dim ond 4% o'ch rhodd a gedwir gan thebiggive i dalu costau gweinyddol; daw'r gweddill yn uniongyrchol i ni.

### Yn Newydd! Rhowch trwy Decst. Rhoddion hawdd a chyflym wrth fynd a dod!

Caiff Justtextgiving ([www.justtextgiving.com](http://www.justtextgiving.com)) ei redeg fel gwasanaeth rhydd i elusennau gan Vodaphone. Mae negeseuon tecst yn rhad – i roi, anfonwch neges decst i 70070 gan roi'r côd JITL18 + a'r swm yr ydych eisiau ei roi e.e. JITL18 £5>. Caiff eich rhodd naill ai ei thynnu o gredyd eich ffôn symudol neu ei hychwanegu at fil eich ffôn symudol.

### Pam rhoi?

Os ydych chi wedi eistedd trwy sgwrs ac yn cael anhawster clywed y siaradwr neu wedi dioddef y rhwystredigaeth o fethu â chlywed y cwestiynau, yna byddwch yn gwerthfawrogi cael system sain fydd yn goresgyn y problemau hyn. Mae AMC yn cynnal digwyddiadau mewn llawer o leoliadau gwahanol. Weithiau mae system sain, gan gynnwys meicroffonau, y gallwn ni eu defnyddio ond yn fynych does dim system o'r fath. Hyd yn oed pan fo un ar gael rhaid talu am ei defnyddio. Felly, mae'r pwyllgor wedi bod yn ymchwilio posibiliadau prynu system gludadwy, gan gynnwys meicroffonau, y gallwn ni eu defnyddio mewn lleoliadau gwahanol. Bydd hyn yn debygol o gostio £300-£400 i ni a dyna pam rydym yn gofyn i CHI eich helpu i godi'r arian hwn i'w prynu.

Gwerthfawrogn bob rhodd, boed trwy siec, tecst neu ar-lein yn fawr iawn.

Anfonwch unrhyw rodd trwy siec i Archif Menywod Cymru / Women's Archive of Wales, Trysorydd (Rhoddion), Archif Menywod Cymru / Women's Archive of Wales, Llyfrgell Glowyr de Cymru, Campws Hendrefoelan, Heol Gŵyr, Abertawe, SA2 7NB

Avril Rolph

## Adroddiad y Pwyllgor Tachwedd 2012

Roeddem yn falch croesawu Elin Jones i'r pwyllgor, er ei bod wedi bod yn gweithio i AMC/WAW yn ymgynghorydd addysg am sawl blwyddyn a bydd yn parhau i wneud hynny. Diolchwyd a llongyfarchwyd CF a'i thim ar drefnu Cynhadledd 2012 mor llwyddiannus. Mae cynlluniau ar y gweill eisoes ar gyfer Cynhadledd 2013 a gynhelir, gobeithio, ym Merthyr Tudful.

Roedd hi'n braf gweld AR yn ôl yn ein plith ac atgoffodd ni fod angen sicrhau mwy o gyhoedduswydd i'n gweithgareddau. Felly rydym yn cynllunio taflen newydd a fydd yn cynnwys ffurflen ymaelodi fwy a digon o le arni i gyfeiriadau e-bost.

Ar ôl trafodaeth fywiog cytunwyd yn unfrydol i beidio â chael Cyfeiriadur o Ddiddordebau Aelodau. Trwy dechnoleg fodern gall un e-bost wneud apêl benodol unrhyw bryd. Mae CS ac is-grŵp yr Eisteddfod yn cynllunio digwyddiad yn Ninbych. Gobeithio y bydd aelodau lleol yn rhoi cefnogaeth ymarferol. Roedd yn gallu adrodd hefyd fod ein prosiect peilot ar gyfer ein darn nesaf o bwys o ymchwil wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae atgofion naw menyw a fu'n gweithio mewn diwydiannau ysgafn yng Nghymru ar ôl 1945, wedi'u cofnodi. Y cam nesaf fydd gofyn am arian gan Gronfa Treftadaeth y Loteri am brosiect a fydd yn cwmpasu Cymru.

Atgoffodd CH ni mai dim ond dogfennau gwreiddiol y mae archifau'n eu derbyn ond y byddent yn derbyn yr holl arddangosfa a baratowyd ar Goleg y Barri ar gyfer digwyddiad AMC yn Eisteddfod Genedlaethol y Fro eleni.

Rosemary Scadden, Ysgrifenyddes Cofnodion

### Pwyllgor 2012 - 2013

Deirdre Beddoe	Llywydd
Jenny Sabine	Cadeirydd ac Is-lywydd
Avril Rolph	Ysgrifennydd Gweinyddol ac Is-lywydd
Gail Allen	Trysorydd
Sue Thomas	Ysgrifennydd Aelodaeth
Rosemary Scadden	Ysgrifennydd Cofnodion
Caroline Fairclough	Golygydd
Elin Jones	Shan Robinson
Catrin Stevens	Sue Trevelyan-Jones

### Aelodau cyfetholedig

Susan Edwards	Ymgynghorydd Archifau a Swyddog Casgliadau
Charlotte Hodgson	Swyddog Casgliadau
Yvonne Jardine	Minority Ethnic Women's Network
Jen Wilson	Jazz Heritage Wales

Croesewir cyfraniadau gan bob aelod. Os gallwch gyflwyno eich cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrogn hynny. Anfoner cyfraniadau at: [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org)

### Dyddiad cyflwyno ar gyfer y rhifyn nesaf Dydd Gwener 15<sup>fed</sup> Chwefror 2012

Os hoffech gopi print mawr o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline trwy'r cyfeiriad e-bost uchod neu ar 01873 890540.

Mae'r Cylchlythyr hwn ar gael i aelodau ar-lein hefyd ar: [www.womensarchivewales.org](http://www.womensarchivewales.org), yn Adran yr Aelodau.

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens, Elin Jones a Sue James.